**ymhellach ac ystyrir materion cysylltiedig, yn cynnwys cyfleusterau cawod a diogelwch y rhai sy'n dymuno beicio.**

**iii. Barnwyd bod yr Ymgyrch Ymwybyddiaeth Alcohol, a oedd wedi'i chefnogi gan amryw o grwpiau, yn llwyddiant yn gyffredinol.**

**iv. Nodwyd bod hyfforddiant ar gamddefnyddio sylweddau ac alcohol i'w drefnu gan Grŵp Gogledd Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau ac Alcohol. Gobeithid y byddai hyfforddi staff yn gymorth i baratoi dulliau gweithredu newydd i staff ar gyffuriau ac alcohol.**

**v. Gofynnwyd am fwy o gynrychiolwyr ar yr Is-Bwyllgor o blith y myfyrwyr.**

**vi. Mae'r Uwch Gofrestrydd Cynorthwyol wedi cael gwahoddiad i adrodd ar y Strategaeth Chwaraeon a'i thrafod yn y cyfarfod nes**

**318.** **ADRODDIADAU ARCHWILIADAU AC AROLYGIADAU**

**Cyflwynwyd adroddiad ar yr Archwiliad a gwblhawyd yn ddiweddar ar 'Systemau Argyfwng', a nodwyd y bydd yr Adroddiad llawn ar gael ar-lein.**

**Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad, a phwysleisiwyd bod Ystadau a Chyfleusterau wedi creu Cynllun Gweithredu i roi sylw i eitemau blaenoriaeth.**

**319.** **ADRODDIAD AR YR WYTHNOS LES**

**Adroddwyd bod 115 o staff wedi cymryd rhan yn y Diwrnod Lles ar 12 Ionawr 2009, a bod 151 o weithwyr eraill wedi ymuno â gweithgareddau lles yn ystod yr wythnos. Nodwyd i'r ymateb i'r Digwyddiad fod yn gadarnhaol iawn, ond mynegwyd siom ynglŷn â'r nifer a gymerodd ran.**

**Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chanmol pawb a fu'n gysylltiedig â threfnu ymgyrch o safon uchel. Wedi ystyriaeth briodol, cefnogwyd yr awgrym y dylid addasu ymgyrchoedd yn y dyfodol ar gyfer 'cynulleidfa' benodol a'u lleoli m**

**320.**

**321.**